

Cyfarfod Misol / Monthly Meeting

Nos Lun 18ed Tachwedd 2024 / Monday, 18th November 2024

Festri Tabernacle Fetry, Pencader

7.30 yh / pm

Presennol / Present: M. Griffiths, H. Lewis, A. James, V. Davies, A. Davies, R. Thomas, G. Jones, D. Davies, J. Jones, Anita Evans (Clerc/Clerk), Cyngorydd Sir/County Councillor L. Evans.

Ymddiheuriadau / Apologies: D. Griffiths, W. Cole, PCSO A. Davies.

<p>1. Croeso: Cadeiriwyd y cyfarfod gan M. Griffiths. Croesawodd bawb a nodwyd ymddiheuriadau. Derbyniwyd llythyr o ymddiswyddiad oddi wrth Cyng. S. Mason. Cytunwyd bod llythyr yn cael ei anfon i ddiolch i'r Cyng. Mason am ei gwasanaeth ac i estyn dymuniadau gorau'r Cyngor ar gyfer y dyfodol.</p>	<p>1. Welcome: Meeting chaired by M. Griffiths, who welcomed everyone; apologies and absences noted. A letter of resignation had been received from Cllr. S. Mason. It was agreed that a letter noting the Council's appreciation of Cllr. Mason's services be written and to extend our best wishes for the future.</p>
<p>2. Datgan diddordeb: neb</p>	<p>2. Declaration of interest: none</p>
<p>3. Adroddiad yr Heddlu – Nid oedd SCCH Anwen Davies (Swyddog Cefnogi Cymunedol yr Heddlu) yn bresennol. Roedd data am y mis eisoes wedi ei dderbyn. Gofynnodd A. Davies am anfon neges at yr Heddlu i ddweud fod bachgen ifanc yn reidio ei feic o gwmpas pentref Pencader ac yn croesi o flaen traffig. Mae hyn yn digwydd yn aml.</p>	<p>3. Report from Police - PCSO Anwen Davies was not present. The monthly data was received. Cllr A. Davies requested a message be sent to the Police regarding a youth riding his bike on the main street in Pencader and weaving dangerously through traffic. This happens frequently.</p>
<p>4. Cofnodion Cyfarfod Mis Hydref (21.10.2024) - derbyniwyd fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan A. James, eiliwyd gan A. Davies</p>	<p>4. (i) Minutes of October Meeting (21.10.2024) - accepted as a true record. Proposed by A. James, seconded by A. Davies.</p>
<p>5. Materion yn Codi: (i) <u>Cyngor Sir Gâr</u> - Adran Briffyrd - dim diweddariad (ii) <u>Cyfleusterau Cyhoeddus Pencader</u> - gwnaeth A. Davies, G. Jones, H. Lewis a M. Griffiths, ynghyd â'r Clerc gyfarfod ar y safle ar 16.11.2024 a chanfod bod ychydig o waith yn dal heb ei gyflawni gan y Cyngor Sir. Penderfnwyd gofyn am gyfarfod ar y safle gyda swyddogion o'r Cyngor Sir. Cadarnhaodd y Clerc bod tystysgrif am y gwaith trydan wedi ei dderbyn oddi wrth y trydanwr, B. Evans. <u>Cyfleusterau Cyhoeddus Alltwalis</u> - nodwyd bod y tyfiant o gwmpas y safle a'r cae cyfagos wedi cael ei dorri a bod ffens newydd wedi ei osod o amgylch.</p>	<p>5. Matters Arising: (i) <u>Carmarthenshire County Council</u> - Highways Department - no updates. (ii) <u>Pencader Public Conveniences</u> - A. Davies, G. Jones, H. Lewis, M. Griffiths and the Clerk met on the site on 16.11.2024 and noted that some works have still not been completed by the County Council. It was decided to request a site meeting with officers of the County Council. The Clerk confirmed that a certificate of completion in respect of the electricity works had been received from the electrician, B. Evans <u>Alltwalis Public Conveniences</u> - it was noted that the area around the site and adjoining field had been cleared and fenced. The Clerk advised that a quotation of £35.00 per</p>

<p>Nododd y Clerc bod pris o £35.00 y dydd wedi ei dderbyn oddi wrth gwmni glanhau Danfo.</p> <p>(iii) <u>Mynwent Pencader</u> - gwnaeth A. Davies, G. Jones, H. Lewis a M. Griffiths, ynghyd â'r Clerc gyfarfod ar y safle gyda rheolwr gwaith y cwmni adeiladwyr ar 16.11.2024. Cytunwyd y byddai rhai manion yn cael eu cwblhau cyn gynted â phosib.</p> <p>(iv) <u>Cysgodfannau Bws</u> - gofynodd y Clerc am ganiatâd i gysylltu gyda B. Bridge i olchi llawr cysgodfan New Inn. Cytunwyd.</p> <p>(v) <u>Diffibrilwyr</u> - mae A. Munday wedi gosod pob un yn y Plwyf ar gylchdaith y Gwasanaeth Ambiwlans.</p> <p>(vi) <u>Data wrth gefn</u> – mae trefniadau mewn llaw l sicrhau bydd y mater yma wedi ei gyflawni cyn y cyfarfod misol ym Mis Ionawr.</p> <p>(vii) <u>Hysbysfyrdau</u> – cadarnhawyd bydd K. Lewis yn atgyweirio'r hysbysfyrdau ym Mhontweli ac Alltwalis.</p> <p>(viii) <u>Ardal Bicnic</u>: dim ymateb oddi wrth y cyfreithiwr.</p> <p>(ix) <u>Fforwm Peilonau a Thyrbenni Gwynt</u> - cytunodd M. Griffiths ac A. James gynrychio'r Cyngor ar gyfer y ddau gyfarfod cyntaf (a gynhelir ar-lein).</p> <p>(x) <u>Elusen Angor</u> - penderfynwyd gwahodd un o'r swyddogion i siarad â'r Cyngor ar ddechrau cyfarfod mis Chwefror.</p>	<p>day had been received from the Danfo cleaning company.</p> <p>(iii) <u>Parish Cemetery, Pencader</u> - A. Davies, G. Jones, H. Lewis, M. Griffiths and the Clerk met on site with the foreman of the building company on 16.11.2024. It was agreed that some minor works would be completed as soon as possible.</p> <p>(iv) <u>Bus Shelters</u> - the Clerk asked permission to contact B. Bridge to wash the floor at the New Inn bus shelter. This was agreed.</p> <p>(v) <u>Defibrillators</u> - A. Munday has placed all defibrillators within the Parish on the Ambulance Service circuit.</p> <p>(vi) <u>Data back-up</u> – arrangements are in hand to ensure this matter will be resolved by the monthly meeting in January.</p> <p>(vii) <u>Noticeboards</u> – it was confirmed that K. Lewis will repair the noticeboards at Pontwelly and Alltwalis.</p> <p>(viii) <u>Picnic Area</u> - no response from solicitor.</p> <p>(ix) <u>Pylons and Wind Energy Forum group</u> - M. Griffiths and A. James agreed to represent the Council at the first two meetings (which will be held online).</p> <p>(x) <u>Angor Charity</u> - it was decided to invite one of the officers to visit to address the Council at the beginning of its meeting in February.</p>
<p>6. Ariannol: Derbyniwyd a chymeradwywyd y Fantolen Ariannol hyd at 31.10.2024. Cynigiwyd gan A. Davies, eiliwyd gan D. Davies Diolchwyd i H. Lewis am baratoi'r fantolen.</p>	<p>6. Financial: The Financial Statement up to 31.10.2024 was received and approved. Proposed by A. Davies, seconded by D. Davies H. Lewis was thanked for preparing the statement.</p>
<p>7. Cynllunio: Dim ceisiadau.</p>	<p>7. Planning Matters: No applications.</p>
<p>8. Lwfansau Cynghorwyr: Darparodd y Cadeirydd fanylion am benderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnyddiaeth Ariannol 2024-2025 i'w hystyried gan y Cyngor:</p> <p>Taliadau Gorfodol: Cost Gofal neu Gymorth Personol – rhaid i'r Cyngor ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol gofalu am blant ac oedolion dibynol (a ddarperir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol.</p>	<p>8. Councillors' Allowances: The Chairman provided details of the deliberations of the Independent Remuneration Panel for Wales for the year 2024-2025 to be considered by the Council:</p> <p>Mandatory Payments: Cost of Care or Personal Assistance – the Council <u>must</u> provide for the reimbursement of necessary costs for the care of dependent children and adults (provided by informal or formal carers) and for personal assistance needs.</p>

Byddai hyn yn cael ei ad-dalu yn y cyfarfod wedi i hawliad gael ei gyflwyno i'r Clerc.

Costau a Threuliau – (a) Gweithio o Adref – rhaid i'r Cyngor sicrhau bod taliad o £156.00 y flwyddyn ar gael i bob un o'i aelodau tuag at gostau cartref ychwanegol (gan gynnwys gwres, golau, pŵer a band eang) o weithio gartref.

Cytunwyd byddai hwn yn cael ei dalu ym Mis Tachwedd bob blwyddyn heblaw bod aelod yn cadarnhau (yn ysgrifenedig) i'r Clerc nad ydyw'n dymuno hawlio cyfan, neu ran o'r lwfans.

Costau a Threuliau – (b) Taliad Penodol am Nwyddau Traul – rhaid i'r Cyngor naill ai dalu £52.00 y flwyddyn i'w aelodau am gost nwyddau traul swyddfa sydd eu hangen i gyflawni eu rôl, neu fel arall, rhaid galluogi aelodau i hawlio ad-daliad llawn am gost nwyddau traul.

Cytunwyd byddai hwn yn cael ei dalu ym Mis Tachwedd bob blwyddyn heblaw bod aelod yn cadarnhau (yn ysgrifenedig) i'r Clerc nad ydyw'n dymuno hawlio cyfan, neu ran o'r lwfans.

Taliadau Opsiynol:

Taliad Cyfrifoldeb ar gyfer Uwch Rolau - gall y Cyngor ddarparu taliad blynyddol o £500.00 yr un i uchafswm o dri aelod fel cydnabyddiaeth o'u cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol i'r taliadau o £156.00 a £52.00 ar gyfer costau a threuliau.

Cytunwyd i beidio darparu'r lwfans hwn.

Teithio – gall y Cyngor wneud taliadau am gostau teithio i bob un o'i aelodau am fynychu dyletswyddau a gymeradwyir gan y Cyngor.

Nodwyd a chytunwyd i hyn ac ad-delir yn y cyfarfod wedi i hawliad gael ei gyflwyno i'r Clerc.

Aros Dros Nos – gall y Cyngor, os ydyw dyletswydd yn gofyn am aros dros nos, awdurdodi ad-dalu costau cynhaliath i'w aelodau ar y cyfraddau uchaf, fel maent wedi eu cyhoeddi.

Nodwyd a chytunwyd i hyn ac ad-delir yn y cyfarfod wedi i hawliad gael ei gyflwyno i'r Clerc.

Iawndal am Golled Ariannol – gall y Cyngor dalu iawndal ariannol i bob un o'i aelodau, lle bu colled o'r

This would be reimbursed at the meeting following a claim being submitted to the Clerk.

Costs and Expenses – (a) Working From Home - the Council must make available a payment to each of its members of £156.00 per year towards the extra household expenses (including heating, lighting, power and broadband) of working from home.

It was agreed that this will be paid in November of each year unless a member confirms (in writing) to the Clerk they do not wish to claim all, or part of the allowance.

Costs and Expenses – (b) Set Payment for Office Consumables - the Council must either make available a payment of £52.00 per year to its members for the cost of office consumables required to carry out their role, or alternatively the Council must enable members to claim full reimbursement for the cost of their office consumables.

It was agreed that this will be paid in November of each year unless a member confirms (in writing) to the Clerk they do not wish to claim all, or part of the allowance.

Optional Payments:

Responsibility Payment for Senior Roles – the Council may make available an annual payment of £500.00 each up to a maximum number of three members in recognition of specific responsibilities. This is in addition to the £156.00 and £52.00 payments for costs and expenses.

It was agreed not to take forward this payment.

Travel – the Council can make payments to each of their members in respect of travel costs for attending Council approved duties.

This was noted and approved and will be reimbursed at the meeting following a claim being submitted to the Clerk.

Overnight Stays – the Council, if a duty requires an overnight stay, may authorise reimbursement of subsistence expenses to its members at the maximum rates as published.

This was noted and approved and will be reimbursed at the meeting following a claim being submitted to the Clerk.

Compensation for Financial Loss – the Council can pay financial loss compensation to each of its members,

fath, am fynychu dyletswyddau a gymeradwyir gan y Cyngor fel sydd wedi eu cyhoeddi.

Nodwyd a chytunwyd i hyn ac ad-delir yn y cyfarfod wedi i hawliad gael ei gyflwyno i'r Clerc.

Lwfans Presenoldeb – gall y Cyngor dalu lwfans presenoldeb i'w aelodau. Yr uchafswm gorfodol ar gyfer pob digwyddiad cymwys ydy £30.00 ac ni all aelod sy'n derbyn iawndal colled ariannol hawlio lwfans presenoldeb ar gyfer yr un digwyddiad.

Os bydd y Cyngor yn penderfynu o blaid lwfansau presenoldeb, yna bydd rhaid llunio cynllun i'w fabwysiadu'n ffurfiol a gwneud darpariaeth iddo fod ar gael i'r cyhoedd.

Rhaid i daliadau am bresenoldeb fod mewn perthynas â busnes swyddogol neu ddyletswydd gymeradwy a nodir yn Rheolau Sefydlog y Cyngor neu fel arall drwy benderfyniad penodol. Dylai'r cynllun nodi ar gyfer pa ddigwyddiadau y gwneir taliadau.

Bydd gan pob aelod o'r Cyngor hawl i'r taliad am fynychu'r digwyddiadau a nodir yn y cynllun, ond gall aelod unigol wrthod derbyn taliad drwy hysbysu'r Clerc (yn ysgrifenedig).

Cytunwyd i beidio darparu'r lwfans hwn.

Pennaeth Dinesig – gall y Cyngor ddarparu taliad Pennaeth Dinesig i'r Cadeirydd hyd at uchafswm o £1500.00. Mae hyn yn ychwanegol at y taliadau o £156.00 a £52.00 ar gyfer costau a threuliau a'r uwch gyflog o £500.00 os caiff y rhain eu hawlio gan yr aelod hwnnw.

Cytunwyd i beidio darparu'r lwfans hwn.

Dirprwy Bennaeth Dinesig - gall y Cyngor ddarparu taliad Pennaeth Dinesig i'r Is-Gadeirydd hyd at uchafswm o £500.00. Mae hyn yn ychwanegol at y taliadau o £156.00 a £52.00 ar gyfer costau a threuliau a'r uwch gyflog o £500.00 os caiff y rhain eu hawlio gan yr aelod hwnnw.

Cytunwyd i beidio darparu'r lwfans hwn.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd gyda'r penderfyniadau uchod fel sydd wedi ei nodi.

Cynigiwyd gan A. Davies, eiliwyd gan G. Jones, gyda phawb yn bresennol yn gytun.

Gofynnodd y Clerc i'r holl aelodau am fanylion bancio er mwyn ei galluogi i drosgwlyddo'r taliadau.

where such loss has occurred, for attending approved duties as published.

This was noted and approved and will be reimbursed at the meeting following a claim being submitted to the Clerk.

Attendance Allowance – the Council can pay an attendance allowance for its members. The mandatory maximum for each qualifying event is £30.00 and a member in receipt of financial loss compensation will not be entitled to claim attendance allowance for the same event.

If the Council decides in favour of attendance allowances, it must produce a scheme for formal adoption and make provision for it to be publicly available.

Payments for attendance must be in respect of official business or approved duty which are identified in the Council's Standing Orders or alternatively by specific resolution. The scheme should specify for which events payments will be made.

All members of the Council will be entitled to the payment for attendance at the events specified in the scheme, but an individual member may decline to receive payment by informing the Clerk (in writing).

It was agreed not to take forward this allowance.

Civic Head – the Council can provide a Civic Head payment to the Chairman up to a maximum of £1500.00 This is in addition to the £156.00 and £52.00 payments for costs and expenses and the £500.00 senior salary if these are claimed by that member.

It was agreed not to take forward this allowance.

Deputy Civic Head – the Council can provide a Deputy Civic Head payment to the Vice-Chairman up to a maximum of £500.00 This is in addition to the £156.00 and £52.00 payments for costs and expenses and the £500.00 senior salary if these are claimed by that member.

It was agreed not to take forward this allowance.

Following discussion, the above decisions were agreed upon as noted.

Proposed by A. Davies, seconded by G. Jones, with all members present in agreement.

The Clerc requested Councillors' banking details to enable payments to be made.

<p>9. Dogfennaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Polisiâu Cyflogaeth: <ul style="list-style-type: none"> (a) Polisi Gwyliau Blynyddol (b) Polisi Gwrth-Fwlio (c) Polisi Disgyblu (ch) Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (d) Polisi (dd) Polisi Mamolaeth a Chyflog (e) Polisi Mamolaeth a Chyflog (f) Polisi (ff) Polisi Chwythu'r Chwiban (ii) Model Reoliadau Ariannol (iii) Cylch Gorchwyl – Is-Bwyllgorau (iv) Cynllun Bioamrywiaeth <p>Derbyniwyd yr holl bolisiâu cyflogaeth, ynghyd â'r ddogfen Cylch Gorchwyl Is-Bwyllgor Cyllid. Cynigiwyd gan H. Lewis ac eiliwyd gan R. Thomas.</p> <p>Bwriedir cyflwyno'r ddogfen Model Reoliadau Ariannol ((ii) uchod) a dderbyniwyd yn ddiweddar oddi wrth Un Llais Cymru mewn cyfarfod yn gynnar yn 2025 wedi iddo gael ei ddiwygio.</p> <p>Bwriedir hefyd gyflwyno'r Cynllun Bioamrywiaeth ((iv) uchod) mewn cyfarfod yn gynnar yn 2025.</p> <p>Diolchwyd i M. Griffiths am y gwaith o baratoi a chyflwyno'r ddogfennaeth uchod.</p>	<p>9. Documentation:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Employment Policies: <ul style="list-style-type: none"> (a) Annual Leave Policy (b) Anti-Bullying Policy (c) Disciplinary Policy (d) Equality and Diversity Policy (e) Grievance Policy (f) Lone Working Policy (g) Maternity Leave and Pay Policy (h) Sickness Absence Policy (i) Whistleblowing Policy (ii) Revised Model Financial Regulations (iii) Terms of Reference – Finance Sub-Committee (iv) Biodiversity Plan <p>All employment policies ((i) above) and the Terms of Reference for the Finance Sub-Committee ((iii) above) were accepted; proposed by H. Lewis, seconded by R. Thomas.</p> <p>The Revised Model Financial Regulations document ((iii) above) recently received from One Voice Wales will be presented at a meeting early in 2025 following review.</p> <p>The Biodiversity Plan ((iv) above) will also be presented at a meeting early in 2025.</p> <p>M. Griffiths was thanked for his work in preparing and presenting the above documents.</p>
<p>10. Gohebiaeth - wedi e-bostio i'r Cynghorwyr.</p> <p>1. Un Llais Cymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) Hyfforddiant - Tachwedd a Rhagfyr 2024 (b) Cyllid ar gyfer Hybiau Diogel a Chynnes (c) Hysbysiad Weminar - Prydau sy'n Bwysig. <p>2. Cyngor Sir Gâr:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) Ymgynghori ar Ymestyn Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Rheolaethau Cŵn) Cyngor Sir Caerfyrddin 2016 (b) Galw am Dystiolaeth ar Faterion Baw Cŵn sy'n Effeithio ar Gaeau Chwarae yn Sir Gaerfyrddin; Byddwn yn anfon i ddweud fod y Cae Chwarae a Davies St. yn fannau gwael iawn ym Mhencader. (c) Swyddog Ymgysylltu â Thenantiaid - gofyn am drefnu dyddiad i gyfarfod er mwyn trafod awgrymiadau yn ymwneud ag Ymgysylltu â Thenantiaid - trafodir cyfarfod nesaf. 	<p>10. Correspondence – e-mailed to members.</p> <p>1. One Voice Wales:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) Training - November & December 2024 (b) Funding for Safe & Warm Hubs (c) Notification of Webinar – Meals That Matter <p>2. Carmarthenshire County Council:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) Consultation on Extending of the Carmarthenshire County Council (Dog Control) Public Spaces Protection Order 2016 (b) Call for Evidence on Dog Fouling Issues Affecting Sports Fields in Carmarthenshire - We will inform that Davies Street and the Playing Field in Pencader are seriously affected. (c) Tenancy Engagement Officer - requesting to meet to discuss suggestions / issues related to Tenant Engagement-we will discuss next meeting.

<p>(ch) Apel Teganau Nadolig y Sir - pasiwyd cyfrannu £150.00. Cynigiwyd gan D. Davies, eiliwyd gan A. Davies.</p> <p>3. Senedd Cymru: Adran 137 - Uchafswm Gwariant 2025-2026 – yr uchafswm gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf fydd £11.10.</p> <p>4. A. Evans (Clerc) - Llythyr Ymddiswyddiad. Darllenodd y Cadeirydd lythyr oddi wrth y Clerc yn hysbysu'r Cyngor ei bod yn dymuno ymddeol o'i swydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Nododd y Cadeirydd bod Un Llais Cymru yn cynnig gwasanaeth i ddarparu cyngor ynglyn â pharatoi manylion ar gyfer gofynion y swydd yn ogystal â'r canllawiau i'w dilyn ynglyn ag hysbysebu. Nododd byddai tâl o rhwng £300 a £400 ar gyfer hyn. Cytunwyd i'r Cadeirydd gysylltu ag Un Llais Cymru i ofyn am y gwasanaeth hwn er mwyn sicrhau ein bod yn dilyn y camau priodol yn gywir. Cynigiwyd gan H. Lewis, eiliwyd gan D. Davies, gyda chytundeb pawb oedd yn bresennol.</p>	<p>(d) County Council Christmas Toy Appeal - it was agreed to donate £150.00; proposed by D. Davies, seconded by A. Davies.</p> <p>3. Welsh Government: Section 137 Expenditure Limit 2025-2026 - the maximum expenditure limit for the next financial year is £11.10.</p> <p>4. A. Evans (Clerk) - Letter of Resignation - the Chairman read a letter received from the Clerk to advise the Council of her decision to retire from her post at the end of the financial year. The Chairman noted that One Voice Wales can provide advice re: preparing details of the requirements of the post as well as guidance for advertising. It was noted that a charge of £300 to £400 would be made for this service. It was agreed for the Chairman to consult with One Voice Wales to request this service to ensure the correct procedure to be followed. Proposed by H. Lewis, seconded by D. Davies, with the agreement of all members present.</p>
<p>11. Unrhyw Fater Arall (gwybodaeth oddi wrth Gynghorwyr / Clerc yn unig):</p> <p>Cynghorydd Sir L. Evans:</p> <p>(i) llinellau melyn ym Mhontweli wedi cael eu cymeradwyo.</p> <p>H. Lewis:</p> <p>(i) cyfeiriwyd at ddogfennau "Canllawiau Digidol ac Enwi Parthau" ac "Arweiniad Digidol – Arfer Da" a dderbyniwyd oddi wrth Un Llais Cymru ar 14.11.2024; tynnwyd sylw ar rai materion ynglyn â chyfeiriadau e-bost a gwefan.</p> <p>(ii) Pont Cwmgwen: anodd i gerbydau droi i Dolgran – cytunodd Cynghorydd Sir L. Evans gysylltu â'r Adran Briffyrd.</p> <p>M. Griffiths:</p> <p>(i) dŵr ar y ffordd heibio Penrhiw wedi amlygu ei hun unwaith yn rhagor yn dilyn y tywydd garw diweddar.</p> <p>A. Davies:</p> <p>(i) mae wal maes parcio Garej Highway wrth ymyl y ffordd fawr mewn stâd wael ac mae rwbwl yn syrthio ar y palmant.</p>	<p>11. Any Other Business (information from Councillors and Clerc only):</p> <p>County Councillor L. Evans:</p> <p>(i) the decision on yellow lines near Wilkes' Head in Pontwelly has been approved.</p> <p>H. Lewis:</p> <p>(i) referred to "Digital Guidance Domain Naming" and "Digital Guidance - Good Practice" documents received from One Voice Wales on 14.11.2024 and drew attention to matters relating to e-mail and website addresses.</p> <p>(ii) Cwmgwen Bridge: it has become difficult for traffic to negotiate the turning for Dolgran. County Councillor L. Evans agreed to contact the Highways Department.</p> <p>M. Griffiths:</p> <p>(i) flooding issues below Penrhiw continue to be problematic and have been particularly evident following recent wet weather conditions.</p> <p>A. Davies:</p> <p>(i) the outer wall of Highway Garage car park is crumbling, and rubble is falling onto the pavement.</p>

<p>(ii) CCTV y Pafiliwn - nid yw'r lygoden i lywio'r sgrîn yn gweithio. Bydd y Clerc yn cysylltu â chwmni Dyfed Alarms.</p>	<p>(ii) Pavillion CCTV: the mouse to the system is not working. This is following the last service. Clerk will contact Dyfed Alarms.</p>
<p>12. Dyddiad y Cyfarfod Misol Nesaf – Nos Lun, Ionawr 20fed 2025 am 7.30 y.h.</p> <p>Dyddiad Is-Bwyllgor Cyllid: Dydd Mercher, 15ed Ionawr 2025 am 7.00 y.h.</p>	<p>12. Date of Next Meeting: Monday January 20th at 7.30 p.m.</p> <p>Date of next Finance Sub-Committee Meeting: Wednesday, 15th January at 7.00 p.m.</p>

Gorffennwyd y Cyfarfod 9.05 y.h. / Meeting ended 9.05 p.m.

